OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 295

# Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019

**Ymchwiliadau cyhoeddus pan fo gwrthwynebiadau gan yr awdurdod cynllunio perthnasol**

**9.**—(1) Pan fo'r awdurdod cynllunio perthnasol yn hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod yn gwrthwynebu'r cais ac nad yw ei wrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) peri i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal;

(b) cyn penderfynu pa un ai i roi eu cydsyniad, ystyried y gwrthwynebiad ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau neu amodau a fydd yn rhoi effaith i wrthwynebiad yr awdurdod cynllunio perthnasol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion paragraff (1), ddiystyru unrhyw wrthwynebiad na chafwyd hysbysiad ar ei gyfer gan awdurdod cynllunio perthnasol yn unol â rheoliad 8(2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 9 mewn grym ar 1.4.2019, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019, Adran 9.